



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Gorffennaf 2018 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 July 2018 at 6.30pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*),
Clive Davies, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Richard Jones, Wyn Jones,
Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Trystan Phillips, Shan Williams,
a Mr Wynford Jones (*Clerc i'r Cyngor/Clerk to the Council*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at farwolaeth Mr Llwyd Edwards a fu'n gynghorydd ffyddlon ar Gyngor y Dref am dros ddeng mlynedd ar hugain gan wasanaethu'n Faer ddwy waith. Bu hefyd yn gadeirydd ar gorff llywodraethol Ysgol Uwchradd Aberteifi a Chadeirydd Fforwm Llywodraethwyr Ceredigion. Cafodd angladd barchus gyda thyrfa fawr yn bresennol yng Nghapel Glanrhyd. Rydym hefyd yn cydymdeimlo fel cyngor yn ddwys iawn gyda'r Cyng. Yvonne O'Neill sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar. Dangoswyd y parch arferol i'r ymadawedig drwy sefyll am ychydig eiliadau.

Ar nodyn mwy dedwydd, braint oedd gan y Maer i agor Gŵyl Fawr Aberteifi yn swyddogol gan groesawu nifer o ymwelwyr i'r dref. Llongyfarchodd Gwmni Ieuencid Cylch Aberteifi ar eu perfformiadau gwych, ac i gadeirydd a holl swyddogion yr Ŵyl am eu gwaith brwd i sicrhau'r llwyddiant arferol; cafwyd hefyd gyngerdd gwych ar y nos Sul. Llongyfarchodd hefyd fardd y gadair, Terwyn Tomos. Mae Ceredigion yn dal i aros am leoliad Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn y flwyddyn 2020. Rhaid llongyfarch Mr Derek Burton ar ei gamp o gerdded o Gaerdydd i Aberteifi â llwyth o lo (50kg) ar ei ysgwyddau; roedd ganddo darged i godi £5,000 at elusennau Riley a Cooper, dau fachgen ifanc lleol ag anabledau. Edrychir ymlaen i groesawu'r Cyng. Graham Evans yn ôl yn ei sedd arferol yn y siambr ym mis Medi; da yw deall ei fod yn gwella yn dilyn ei ddamwain.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting. He referred to the recent passing of Mr Llwyd Edwards who had served as a town councillor for over forty years and Mayor on two occasions. He was also chair of governors of Ysgol Uwchradd Aberteifi and the chair of the Ceredigion Governors Forum. A public funeral service was held at Glanrhyd Chapel. Condolences were also offered to Cllr Yvonne O'Neill whose father passed away recently. In remembrance, councillors stood in dignified silence for a few moments.

On a happier note, the Mayor was privileged to officially open Gŵyl Fawr Aberteifi and to welcome visitors to the area. He congratulated the youth company CICA with their resounding success with two nightly performances; the Sunday night closing concert was an event to behold. The Chair, officials and committees were all thanked for their diligent work to sustain the usual high standards of Gŵyl Fawr Aberteifi. Mr Terwyn Tomos once again won the bardic chair. Ceredigion still awaits the final decision as to the location of the 2020 National Eisteddfod of Wales. Mr Derek Burton deserves special praise for his unstinting effort of walking with a sack of coal (50kg) on his shoulders from Cardiff to Cardigan with the target of raising £5,000 to ease the treatment of two local small boys, Riley and Cooper. All members look forward to the return of Cllr Graham Evans in September following his recent accident.

2. Ymddiheuriadau / Apologies:

Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill (*profedigaeth deuluol/family bereavement*),
Graham Evans (*mewn adferiad/in recuperation*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Holl faterion cynllunio / All planning matters
---------------------------------	--

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Mehefin

Confirmation of Minutes of 5 June Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod cofnodion cyfarfod 5 Mehefin yn gywir.

Cllr Debra Griffiths proposed that the 5 June council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1379, eitem 13(a)(i): Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod y mapiau newydd o'r dref yn awr yn eu lle.

Page 1379, item 13(a)(i): Cllr Clive Davies stated that the new town maps were now in place.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Mehefin yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for June was distributed at the meeting.

7. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A180535	Bryn-y-môr House	<i>Codi garej</i> / Erection of garage	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad ar wahân i'r sylw isod.</i> The council has no objection but wishes to note that the house, being Grade 2* listed, that aluminium or cast iron pipework be used.
A180601	Flat 13, 9 Pendre	<i>Ffenestr bae newydd a gwaith cysylltiedig.</i> Replacement of existing bay window including sashes and linings as well as defective mouldings where necessary	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad ar wahân i'r sylw isod.</i> The council has no objection, but it is presumed that scaffolding erected on the main streets is forbidden during the high season.
A180625	Land opposite Parc y Pratt	<i>Codi sied amaethyddol.</i> Erection of an agricultural shed/building	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r datblygiad.</i> The council supports the development.

8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
27/6/18	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr</i> / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
22/6/18	Zurich Municipal: <i>Yswiriant y cyngor</i> / Council insurance 7/6/18 – 6/6/19	A11	4583	£2,557.63 (0.00)
1/7/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office (<i>Mai</i> / May). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> /Rent of Conference Room (5 & 19 Mehefin / June) <i>Band Lydan (Gorffennaf)</i> / Broadband (July)	A9 A9 A20	D/D 4584 4584	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
27/6/18	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> / Simultaneous translation (5/6/18)	A18	4585	£48.30 (0.00)

30/6/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mehefin / June)</i>	A5	4586	£763.03 (0.00)
19/6/18	BT: <i>Ffôn / Telephone</i>	A20	4587	£84.56 (14.09)
13/6/18	Jewson: <i>Deunydd i'r Maes Sgrialu / Material for Skateboard Park</i>	C5	4588	£47.88 (7.98)
3/7/18	HMRC: PAYE £572.28, Class 1 NIC £104.25 (<i>Ebrill, Mai, Mehefin / April, May, June 2018</i>)	A16	4589	£572.28 (IT) + £104.25 (NIC) = £676.53 (0.00)
30/6/18	Mr John Morris: <i>Blodau i Gerddi Victoria a chanol y dref</i> Flowers for Victoria Gardens and town planters, etc.	C1	4590	£2,704.80 (450.80)
30/6/18	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mehefin / June)</i>	A19	4591	£778.80 (129.80)

Cynigiodd y Cyng. Steffan Morgan bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.

Cllr Steffan Morgan proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

Derbyniadau/Receipts:

9/5/18	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£0.95
26/6/18	Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis: 15 o westeion / guests: <i>Seremoni Sefydlu'r Maer a'r Gwasanaeth Dinesig</i> Mayor's Installation Ceremony and Civic Service	£166.00
Cronfa'r Maer / Mayor's Fund:		
21/6/18	Y Cyng. / Cllr Richard Jones	£1,750.00
	<i>Clwb Rhedeg Aberteifi / Cardigan Running Club</i>	£250.00
<u>Cyfraniadau / Donations:</u>		
	<i>Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival Committee</i>	£1,500.00
	<i>Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Swimming Pool</i>	£1,500.00

(b) Adroddiad Ariannol chwarterol hyd ddiwedd Mehefin 2018.

Quarterly Financial Report to the end of June 2018.

Dosbarthwyd yr adroddiad chwarterol ariannol i'r cynghorwyr ymlaen llaw.

The quarterly financial report was distributed to members in advance.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad.

Cllr Clive Davies proposed that the council approves the report; Cllr Catrin Miles seconded the proposal.

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Mae rhai preswylwyr yn ward Teifi yn taflu gwastraff gwyrdd ar hyd y cloddiau sydd yn creu llanast ac yn gwneud hi'n anodd i weithwyr Cyngor Sir Ceredigion i glirio'r ffordd.
- (ii) Mae problemau parcio ar ffordd Gerddi Napier wedi eu trafod gan y cyngor sir; cynghorir preswylwyr i ffonio'r heddlu ar 101 i ddatrys y broblem.
- (iii) Mynychwyd Noson Agored Canolfan Ieuenctid Aberteifi gan y Cyng. Miles a'r Maer a'r Faeres ar 27 Mehefin; llongyfarchwyd y swyddogion yno am eu gwaith egnïol.
- (iv) Cafwyd datganiad yn ddiweddar gan Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru) bod y cynlluniau i ailstrwythuro'r siroedd yng Nghymru yn awr wedi eu diddymu.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Cae Chwarae Maesglas: Aflwyddiannus bu trafodaeth Ben Lake AS gyda Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion, i drosglwyddo perchnogaeth y man chwarae i ofal Cyngor Tref Aberteifi. Cynigiwyd prydles 30 mlynedd gyda rhent rhad. Cytunwyd bod gweithgor gyda'r aelodau canlynol i'w sefydlu i drafod y telerau gyda Mr Jones:
Y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Siân Maehrlein, Shan Williams a Clive Davies.
- (ii) Mae arwyddion swyddogol "Rhodfa'r Felin" bellach wedi eu gosod ar y ffordd o Bath House i Ffordd Gwbert.
- (iii) Sylwyd bod y bin sbwriel oedd wedi ei leoli yn Heol y Gogledd ger siop Spar wedi diflannu. Cytunwyd anfon cais i'r cyngor sir i'w osod o'r newydd.

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Mae'r rheiliau oedd wedi eu niweidio yn Stryd Napier bellach wedi eu cywiro.
- (ii) Mae swyddogion y cyngor sir wedi cysylltu gyda pherchennog y tŷ ar gornel Newtown/Feidrhenffordd ynglŷn â baw ci sydd yn anharddu'r palmant yno ac yn beryg i blant.
- (iii) Mae teulu sydd â dau blentyn gydag anabledd wedi ymgartrefu bellach ym Mro Teifi.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Grass cuttings thrown by irresponsible gardeners into hedges and ditches are causing problems to county council workers when clearing the verges.
- (ii) Irresponsible parking in Napier Gardens is causing inconvenience to local residents; complainants are advised to phone 101 to report incidents.
- (iii) Cllr Miles along with the Mayor and Mayoress attended the Open Evening at Cardigan Youth Centre on 27 June. The officers thereat were commended for their diligent work.
- (iv) Alun Davies AM Cabinet Secretary for Local Government and Public Services (Welsh Government) has decided to cancel the restructuring of county councils in Wales.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Ben Lake MP was unsuccessful in negotiating with Mr Steve Jones, Chief Executive of Tai Ceredigion Cyf., regarding the transfer of ownership of the Maesglas Play Area to Cardigan Town Council. Mr Jones offered a 30-year lease with a peppercorn rent. It was agreed to form a working committee to discuss the terms with Mr Jones; the following members were nominated: Councillors John Adams-Lewis, Siân Maehrlein, Shan Williams and Clive Davies.
- (ii) Cllr Adams-Lewis was pleased to announce that the "Rhodfa'r Felin" signs were now in place: this road leads from Bath House to Gwbert Road.
- (iii) It was noticed that the litter bin located near the Spar shop in North Road has disappeared; it was agreed to request the county council to replace with a new bin.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) The damaged railings in Napier Street have been repaired.
- (ii) Following complaints as to the housing of dog(s) at premises on the Newtown/Feidrhenffordd junction, it was noted that a county council officer had inspected the site; the dog fouling residue swept onto the pavement is a hazard to children and defaces the highway.
- (iii) It is noted that a family with two disadvantaged children has been rehoused in Bro Teifi.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
61	CSC / CCC (Elen James): <i>Noson Agored yng Nghanolfan Ieuenctid Aberteifi, 27/6/18.</i> Open Evening at Cardigan Youth Centre, 27/6/18, between 6.00-7.30pm	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 6 Mehefin.</i> Forwarded to all councillors on 6 June. <i>Mynychwyd gan y Cyngorwyr John Adams-Lewis a Catrin Miles.</i> The above-named councillors attended the event.
62	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Greenfield Square, 7/6/18, 9.00-6.00pm (Cau ar frys oherwydd bod nwy yn gollwng / emergency closure due to gas leak.)</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Mehefin.</i> Forwarded to all councillors on 7 June.
63	CSC / CCC (Arwyn Morris): <i>Wythnos Gofalwyr. Digwyddiad yng Ngwesty Llanina, 15/6/18.</i> Carers Week: Event at Llanina Arms on 15/6/18. <i>Derbyniwyd / Received 12/6/18</i>	<i>Mae'r clec wedi ysgrifennu i'r trefnwyr yn cwyno am y byr rybudd a gafwyd.</i> The clerk has written to the Carers Support Officer complaining at the very short notice received.
64	CSC / CCC (Helen Harries): <i>Gwahoddiad i gynghorwyr fynychu'r gweithdai parthed "Byw'n Dda yng Ngheredigion"</i> Invitation to councillors to attend a "Living Well in Ceredigion" event at the Guildhall on 27/6/18, 11.00 & 3.30pm.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 19 Mehefin.</i> Forwarded to all councillors on 19 June. <i>Mynychwyd y sesiwn gan y Cyngh Catrin Miles a Debra Griffiths.</i> The above-named councillors attended the session.

65	CSC / CCC (Paul Williams): <i>Dŵr tuag at flodau Gardd Victoria</i> . Water supply for Victoria Gardens.	<i>Mae aelodau wedi dangos eu siomedigaeth gydag ymateb y cyngor sir.</i> Members expressed their disappointment with the county council's response. The authority was reminded that it still has ownership of the gardens and were responsible for all flowers and planting expenses prior to 2017.
66	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Cydnabyddiaeth o lythyr y cyngor yn ymwneud ag apwyntiadau ysbyty.</i> Hywel Dda University Health Board: Acknowledgment of the council's query regarding hospital appointments.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
67	George Davies & Evans, <i>Cyfreithwyr/Solicitors: Diweddariad / Update regarding Cardigan RFC lease.</i>	<i>Gweler eitem 11.</i> See item 11.
68	Lt Alun Richards, G (Welsh Guards) Company: <i>Trefniadau am ddiwyddiad yn y Castell ar 3/11/18.</i> Information regarding an event at Cardigan Castle to commemorate the 100 th Anniversary of the end of the First World War on 3/11/18.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r digwyddiad ac yn disgwyl rhagor o wybodaeth.</i> The council supports the event and expects to receive further information.
69	<i>Y Parchg / Revd John Powell: Awgrymiadau am y defnydd o safle'r hen ysbyty.</i> Suggestions for the location of the old Cardigan Hospital.	<i>Trafodwyd yn yr is-bwyllgorau.</i> Discussed at the sub-committees.
70	Cered: <i>Gwybodaeth am Ras yr Iaith 2018.</i> Information regarding the Race for the Language 2018, 4-6/7/18. www.rasyriaith.cymru	<i>Mae'r Ras yn gorffen yn Aberystwyth ar 6/7/18 gyda gwledd o gerddoriaeth.</i> The Race ends at Aberystwyth on 6/7/18 with a feast of music.
71	Mr & Mrs D. Weller, Trwyn-yr-allt, Gwbert Road: <i>Pryderon am gyflymdra'r drafnidiaeth ar Ffordd Gwbert.</i> Concerns regarding traffic speeds on the Gwbert Road	<i>Cytunwyd anfon copi o'r llythyr ymlaen at Rhodri Llwyd a Tom Delph-Janiurek, swyddogion priffyrdd y cyngor sir.</i> It was agreed to forward a copy of the letter to the above-named officers of the Highways department of the county council.
72	Soroptimist International: <i>Gwahoddiad i ddau berson fynychu'r Te Prynawn yn Y Man a'r Lle, Coleg Ceredigion.</i> Invitation for two persons to attend the Afternoon Tea at Y Man a'r Lle, Coleg Ceredigion on 7/7/18 from 2.00-4.00pm	<i>Cytunodd y Cyngorwyr Debra Griffiths a Marilyn Farmer fynychu'r digwyddiad.</i> The above-named councillors agreed to attend the event.
73	<i>Sioe Amaethyddol Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r ginio ar y maes.</i> Cardigan Agricultural Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the luncheon on the field, 4/8/18.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
74	Theatr Mwldan (Tamsin Davies): <i>Eglurhad am osod baner ar ffens y Cae Chwarae.</i> Explanation as to the placement of a banner on the King George 5 th Playing Field fence.	<i>Gweler eitem 14(d)(i).</i> See item 14(d)(i).
75	John Whitehall, Regional Participation Officer (North) Tennis Wales: <i>Trefniadau i ddatblygu tenis yn Aberteifi.</i> Plans to introduce Tennis for Free in open access courts and providing tennis leader courses for local schools.	<i>Mae'r wybodaeth wedi ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol.</i> The correspondence has been forwarded to the Chair of the Advisory Committee to inform the local schools of the venture.
76	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys: Llythyr o ddiolch am gyfraniad y cyngor tuag at y Sioe.</i> Cardigan Barley Saturday Show: Letter of thanks for the council's financial contribution to the Show.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
77	<i>Bachan Deche: Adroddiad Mehefin.</i> Handyperson: June Report	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.

Arwyn Morris: *Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid / Corporate Lead Officer: Customer Contact*
Elen James: *Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a Diwylliant / Corporate Lead Officer: Lifelong Learning and Culture*
Elin Jones: *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*
Helen Harries: *Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol. Electoral Services Manager.*
Paul Williams: *Rheolwr Cyfleusterau / Facilities Manager*

11. **Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Mehefin.
Confirmation of 19 June Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod cofnodion 19 Mehefin yn gywir.

Cllr Debra Griffiths proposed that the 19 June minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

Materion yn codi / Matters arising

Tud. 1381 (*Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed*):

Page 1381 (*King George 5th Playing Field*):

- (a) **Diweddariad ar y brydles i Glwb Bowls Aberteifi: Awgrymiadau'r pwyllgor gwaith. Cytunwyd gyda'r awgrym gan y gweithgor bod y brydles am 21 mlynedd yn dechrau o 2015 a bod rhent y tir yn dal yn £400 am saith mlynedd i'w archwilio wedi hynny. Cytunwyd nad oedd sail i drefnu ail archwiliad ar y tir gan fod y cytundeb yn dangos "rhent y tir" yn unig.**

Update regarding the lease of Cardigan Bowling Club: It was agreed to accept the recommendation by the working group that the term of lease commences from 2015 for 21 years and that the ground rent of £400 per annum be maintained with a 7 yearly rent review; it was agreed that a rent review by valuers on a site-only basis is unwarranted as the agreement states "ground rent" only.

- (b) **Diweddariad ar y brydles i Glwb Rygbi Aberteifi: Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Mr John Dyer mewn gohebiaeth dyddiedig 14 Mehefin 2018 bod ymddiriedolwyr y Clwb Rygbi yn derbyn argymhellion diweddaraf y cyngor. Cytunwyd derbyn yr awgrym i dderbyn y termau fel a nodwyd gan Mr Dyer.**

Update regarding the lease of Cardigan Rugby Club: A letter has been received from Mr John Dyer, dated 14 June 2018, confirming that the trustees of the Rugby Club have agreed to the exclusion of the security of tenure provision of the Landlord and Tenant Act 1954. As the Council has previously agreed that the term of the new lease begins on completion of the new lease and that the annual rent will be £650 per annum for the next 7 years, the solicitors of the Rugby Club, Morgan & Richardson have been asked to confirm the names and addresses of the present trustees of Cardigan Rugby Club so that the final draft of the lease and the Notice under the Landlord and Tenant Act 1954 can be prepared. This will be forwarded to the solicitors as soon as the requested information is received.

It was agreed with the recommendation to accept the terms as noted by Mr Dyer.
Proposed by Cllr Clive Davies; seconded by Cllr Steffan Morgan.

Tudalen 1381 (*Unrhyw fater arall*): Cytunwyd â'r awgrym bod ciosg ffôn BT yn ymyl drws Neuadd y Dref yn cael ei symud o'r safle i wneud lle i osod map newydd o'r dref.

Page 1382 (*Any Other Business*): It was agreed with the recommendation that the BT telephone kiosk alongside the door of the Guildhall be removed and that one of the newly-created town maps be located thereat.

Proposed by Cllr Richard Jones; seconded by Cllr Steffan Morgan.

Tud. 1382 (c) (*Unrhyw Fater Arall*): Cytunwyd â'r awgrym bod ymholiadau yn cael eu gwneud gydag adran ystadau'r cyngor sir am berchnogaeth y safle ar y sgwâr gyferbyn â Theatr Mwldan a hawl tramwy perchnogion y garej.

Page 1382 (c) (*Any Other Business*): It was agreed with the recommendation that enquiries be made with the estates department of the county council regarding ownership of the land opposite to the entrance to Theatr Mwldan and the right of way of garage owners. It has been confirmed that the county council owns the land and no parking is allowed on the paved land. An easement to access the forecourt is held by the property owner.

Tud. 1382 (d) (*Unrhyw Fater Arall*): Cytunwyd â'r awgrym bod llythyr yn mynd at y cyngor sir yn gofyn i'r awdurdod archwilio'r palmentydd yn gyson cyn i ddamweiniau ddigwydd.

Page 1382 (d) (*Any Other Business*): It was agreed with the recommendation that a letter be forwarded to the county council requesting the authority to inspect the pavements regularly before accidents occur as prevention is always better than cure.

Tud. 1382 (f) (Unrhyw Fater Arall): Cytunwyd â'r awgrym bod y cyngor yn archebu 200 o sticeri wi-fi i'w rhoi ar ffenestri siopau, ayyb.

Page 1382 (f) (*Any Other Business*): It was agreed with the recommendation that the council orders 200 vinyl Wi-fi window stickers for business premises.

Proposed by Cllr Clive Davies; seconded by Cllr Catrin Miles.

Tud. 1382 (h) (Unrhyw Fater Arall): Oherwydd i'r hyfforddwr ddioddef damwain ar y ffordd, gohiriwyd y sesiwn hyfforddi. Caiff ei aildrefnu yn y dyfodol.

Page 1382 (h) (*Any Other Business*): As the officer with responsibility for the training suffered a motoring accident, the session was postponed until a future date can be arranged.

Tud. 1382 (i) (Unrhyw Fater Arall): Cytunwyd â'r awgrym bod y cyngor yn anfon cais at Mr Gerwyn Jones, swyddog Rheolwr Strydlun Trefol yr awdurdod, yn gofyn i'r cyngor sir ystyried gosod raciau parcio beiciau ar gornel Stryd y Priordy/Stryd Morgan.

Page 1382 (i) (*Any Other Business*): It was agreed with the recommendation that the council requests the county council to consider placing bike parking racks at the Priory Street/Morgan Street junction.

Cae Chwarae Pentop: Mae prosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn gobeithio cynnal sesiynau chwarae ar Gae Pentop yn ystod gwyliau'r haf gyda sesiynau yno yn y prynhawn ac ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed yn y boreau.

Pentop Play Area: Families First funding for play sessions will be held on Thursdays during the summer holidays with possibly morning sessions at King George 5th Playing Field and afternoons at Pentop.

12. Personél / Personnel.

13. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei gadwyn.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

14. Unrhyw Fater Arall. Any Other Business.

(a) Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill

(anfonwyd e-bost yn ei habsenoldeb/ an e-mail forwarded in her absence)

(i) Gwydr wedi torri gerllaw'r man parcio i'r anabl ger y pwll nofio. Mae'r clerc wedi anfon ebost ymlaen at y cyngor sir gyda'r achwyniad ar 6 Mehefin.

Broken glass at the disabled parking bay at the swimming pool car park bottle bank. The clerk forwarded the complaint to the county council on 6 June.

(ii) Gordyfiant ym mynwent Aberteifi. Mae'r clerc wedi anfon ebost ymlaen at y cyngor sir gyda'r achwyniad ar 19 Mehefin. Mae'r borfa bellach wedi ei thorri.

Overgrowth at Cardigan cemetery. The clerk forwarded the complaint to the county council on 19 June. The grass has since been cut.

(iii) Tai Ceredigion: Gwacáu aneddau wedi marwolaeth.

Vacating premises following a bereavement.

Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at gwmni Tai Ceredigion Cyf. yn gofyn iddynt ystyried teimladau teuluoedd cyn mynnu cymryd y denantiaeth yn ôl ar fyrder.

The clerk was asked to request Tai Ceredigion Cyf. to be more sensitive in their communications with bereaved families before demanding the return of tenancy following a bereavement.

(b) Y Cyng. / Clive Davies

(i) Gwahoddiad i'r Cyng. Davies a'r Maer a'r Faeres fynychu Gŵyl y Barcud ym Mharc Fferm Ynys Aberteifi.

Invitation to Cllr Davies (as County Councillor member for Penparc ward) and the Mayor and Mayoress to attend the Kite Festival at Cardigan Island Coastal Farm, 23/6/18 at 10.00am.

(ii) Gosod cabinet y diffibriliwr yng nghwrt Neuadd y Dref: Cost trydanol.

Placing of the defibrillator in the Guildhall courtyard: cost of electric installation.

- Cytunodd y Cyng. Shan Williams gael pris am osod pwynt trydan yn y cwrt.**
Cllr Shan Williams agreed to obtain a quotation for the installation of a power connection in the courtyard.
- (iii) **Dillad Dinesig y Maer a'r Faeres: materion eu glanhau.**
The Mayoral civic robes: cost of cleaning.
Cytunodd y clerc hel gwybodaeth am lanhau'r dillad dinesig gyda'r arbenigwyr.
The clerk agreed to obtain quotations for the cleaning of civic garments with specialists.
- (iv) **Strand: Diweddariad / Update**
Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod Cabinet y cyngor sir yn bwriadu trafod perchnogaeth y Strand mewn cyfarfod cyn bo hir.
Cllr Catrin Miles declared that the county council Cabinet will discuss the ownership of the Strand at a future date.
- (c) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**
- (i) **Gordyfiant ar y llwybr o Aberteifi i Nantyferwig. Mae'r clerc wedi anfon yr achwyniad ymlaen at y cyngor sir ar 26 Mehefin.**
Overgrowth on the path from Cardigan to Nantyferwig. The clerk forwarded the complaint to Mr Nigel Nicholas, the county council coastal path officer on 26 June, and also informed him of the inaccessibility of the coastal path from Nantyferwig to Rhosfach.
- (ii) **Cnwcydintir: Gosod crybiau i arafu'r drafndiaeth.**
Placing of speed humps to slow traffic.
Cytunwyd bod y cyngor yn gwneud cais i'r cyngor sir osod dyfais i fonitro'r drafndiaeth ar y ffordd.
It was agreed to request the county council highways department to consider placing a speed survey device at various points to monitor traffic.
- (d) **Y Cyng. / Cllr Steff Morgan (Pwyllgor Ymgynghorol / Advisory Committee):**
- (i) **Ceisiadau am osod posteri ar ffens Gae Chwarae Brenon Siôr Sed.**
Applications to place posters on the King George 5th Playing Field fence.
Mae'r Cyng. Morgan wedi derbyn sêl bendith ei bwyllgor i benderfynu ar ddilysrwydd elusennau i osod posteri ar ffens ar y Cae Chwarae. Cytunwyd i'r clerc gynllunio poster o'r canllawiau i'w osod ar y ffens.
Cllr Morgan has been tasked to decide on the authenticity of charities as to the placing of posters on the playing field fence. It was agreed for the clerk to prepare a bilingual notice with directives for applicants to be placed on the fence.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.42yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.42pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date